# Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd – PREIFAT - CRYNODEB

## COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

12:25 – 13:05 | 21/01/2025 | MS Teams

| Cadeirydd | Marian Wyn Jones |
|---|---|

| Yn Bresennol (Aelodau) | | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Marian Wyn Jones (Cadeirydd) | MW-J | Aelod Annibynnol, Cadeirydd | IGDC |
| Alistair Klaas Neill | AKN | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | IGDC |
| Ruth Glazzard | RG | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Bwrdd | IGDC |
| Marilyn Bryan Jones | MB-J | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Yn bresennol | | | |
| Henry Bales | HB | Pennaeth Atal Twyll | BIPCF |
| Stephen Chaney | StC | Dirprwy Bennaeth Archwilio Mewnol | Archwilio Mewnol PCGC |
| Nathan Couch | NC | Arweinydd Archwilio Perfformiad | Archwilio Cymru |
| Mark Cox | MC | Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid (hyd at ddiwedd eitem 5.1) | IGDC |
| Chris Darling | CD | Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |
| Carwyn Lloyd Jones | CLJ | Prif Swyddog Cwmwl (hyd at ddiwedd eitem 4.1) | IGDC |
| Claire Osmundsen- | CO-L | Cyfarwyddwr Gweithredol | IGDC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Little | | Cyllid | |
| Chris Moreton | CM | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Sicrwydd Busnes (hyd at ddiwedd eitem 5.1) | IGDC |
| Samantha Morgan<br>(ar gyfer eitem 5.2) | SM | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | IGDC |
| Julie Robinson | JR | Cydlynydd Llywodraethu Corfforaethol | IGDC |
| Andrew Strong | AS | Arweinydd Archwilio | Archwilio Cymru |
| Laura Tolley | LT | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol / Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |
| Mike Whiteley | MW | Rheolwr Archwilio | Archwilio Cymru |

| Ymddiheuriadau | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

| Acronymau | | | |
|---|---|---|---|
| IGDC | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | AS | Archwilio a Sicrwydd |
| AIA | Awdurdod Iechyd Arbennig | DPIF | Cronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol |
| BAF | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | PCGC | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| DSPP | Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd | DORA | Ymchwil ac Asesu DevOps |
| NHAIS | Gwasanaeth Seilwaith Cymwysiadau Iechyd Gwladol | LASP AR | Cofrestr Colledion a Thaliadau Arbennig |
| WAN | Rhwydwaith Ardal Eang Cymru | ISA | Safon Ryngwladol ar Archwilio |

| Rhif yr Eitem | Eitem | Canlyniad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 1 | MATERION RHAGARWEINIOL | | |
| 1.1 | **Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd, Marian Wyn Jones, bawb i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd preifat.<br>Rhoddwyd croeso arbennig i'r rhai oedd yn bresennol ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.2 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br>Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb i'w nodi. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.3 | **Datganiadau o Fuddiannau**<br>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau i'w nodi. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO | | | |
| 2.1 | **Camau Gweithredu Archwilio (Preifat)**<br>Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gamau gweithredu preifat hwyr a bod yr holl gamau gweithredu a oedd yn weddill ar y trywydd iawn i'w cwblhau erbyn eu dyddiad targed.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** statws y Camau Gweithredu Archwilio (Preifat). | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| RHAN 3 – BUSNES Y CYFARFOD | | | |
| 3.1 | Cofnodion Preifat heb eu cadarnhau o'r cyfarfod blaenorol ar 15 Hydref 2024<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**GYMERADWYO'R** cofnodion fel cofnod cywir o drafodaeth. | Cymerad-wywyd | Dim i'w Nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.2 | **Cofnod Gweithredu**<br>Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gamau gweithredu wedi'u nodi o'r cyfarfod diwethaf.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** statws y Cofnod Gweithredu. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| RHAN 4 | ARCHWILIO A RISG | | |
| 4.1 | **Archwilio Cymru – Adroddiad Systemau TG y GIG a Letyir yn Genedlaethol**<br>Cyflwynodd Andrew Strong, Archwilio Cymru, yr adroddiad i'r Pwyllgor, gan nodi'r uchafbwyntiau a ganlyn:<br>• Mae IGDC yn darparu nifer o gymwysiadau a seilwaith TG cenedlaethol y GIG a ddefnyddir gan sefydliadau GIG eraill yng Nghymru. Dim ond y systemau ariannol hynny y mae IGDC yn eu darparu ac yr oedd angen sicrwydd gan archwilwyr ariannol Archwilio Cymru yn eu cylch yr oedd yr adroddiad yn eu trafod.<br>• Y casgliad cyffredinol oedd ei fod yn debygol o fod yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol.<br>Roedd sylw'r Rheolwyr wedi'i gynnwys yn erbyn pob un o'r argymhellion newydd a godwyd ac roedd pob un wedi'i dderbyn.<br>Trafododd y Pwyllgor y camau gweithredu oedd heb eu cymryd a dywedwyd wrthynt fod nifer ohonynt wedi'u cwblhau.<br>Teimlai'r Pwyllgor fod angen bwrw ymlaen yn gadarn â'r polisi Cymru Gyfan ar gyfer Dechreuwyr, Symudwyr a Gadawyr gan ei fod yn cael effaith uniongyrchol ar ddiogelwch ar draws y rhwydwaith.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** Adroddiad Archwilio Cymru ar Systemau TG y GIG a Letyir yn Genedlaethol. | Sicrwydd | Dim i'w nodi |
| RHAN 5 | ADRODDIADAU LLYWODRAETHU | | |
| 5.1 | **Effaith Ariannol y System Profi Olrhain Diogelu a'r System Archebu Brechlynnau**<br>Rhoddodd Mark Cox, Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid, ddiweddariad ar effaith ariannol datgomisiynu'r | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | canlynol:<br>• System Profi Olrhain Diogelu<br>• System Archebu Brechlynnau<br>Gofynnwyd i IGDC ddatgomisiynu'r ddau wasanaeth hyn ar ddiwedd Ch1. Roedd angen dibrisio cyflymach oherwydd y lleihad yn oes ddefnyddiol y gwasanaethau. Ni fyddai unrhyw effaith net ar IGDC ond byddai'r ffordd y dangosir dibrisio yn cael ei newid.<br>Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod asedau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i weld a ellir eu hail-bwrpasu ond yn achos y ddwy system, oherwydd eu natur bwrpasol, ni ellid cyflawni hyn. Byddai'r gwerth dibrisiant cyflymach yn cael ei adlewyrchu yn y cyfrifon.<br>Penderfynodd y Pwyllgor<br>DDERBYN y diweddariad ar effaith ariannol datgomisiynu'r ddwy system er SICRWYDD. | | |
| 5.2 | **Codi Pryderon**<br>Dywedodd Laura Tolley (LT), Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol/Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd, fod yr aelodau'n ymwybodol o'r tri ymchwiliad Codi Pryderon (chwythu'r chwiban) a oedd yn ymwneud yn benodol â gwerthoedd ac ymddygiadau a phrosesau y glynir atynt. O ganlyniad i'r pryderon hyn, comisiynodd IGDC adolygiad diwylliant. Gwnaed y gwaith hwn gan Ymgynghorydd Annibynnol ar Uwch Arweinyddiaeth a daeth i ben ym mis Rhagfyr 2024.<br>Ymunodd Samantha Morgan (SM), Cyfarwyddwr POD, i rannu canfyddiadau'r adolygiad.<br>Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod nifer o sesiynau ymgysylltu wedi'u cynnal a bod y canfyddiadau wedi'u troi'n gynllun gweithredu a'u hadolygu gyda'r tîm i sicrhau bod y cynnydd gofynnol yn cael ei wneud.<br>Roedd y Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn gadarnhaol bod staff yn teimlo y gallent roi adborth a chodi pryderon.<br>Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai camau gweithredu o'r adolygiad yn cael eu symud ymlaen yn briodol ac y byddai diweddariad ar y rhain yn | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cael ei rannu â'r Pwyllgor yn ôl yr angen.<br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br>NODI'R Adroddiad Codi Pryderon. | | |
| RHAN 6 | MATERION I GLOI | | |
| 6.1 | Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor i'r Bwrdd<br>Byddai'r eitemau oedd i'w hamlygu i'r Bwrdd yn cael eu trafod y tu allan i'r cyfarfod oherwydd cyfyngiadau amser. | Trafodwyd | Dim i'w nodi |
| 6.2 | Unrhyw Faterion Brys eraill<br>Ni chodwyd unrhyw faterion brys eraill i'w nodi. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 6.3 | Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf:<br>• 08 Ebrill 2025 | Nodwyd | Dim i'w nodi |